

CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd mewn modd hybrid nos Lun 23 Mai 2022 am 7:00pm.

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Christine Ellis,
Gavin Harris, Ethan Jones, Ian Lewney, Jabez Redfern Oakes, Anne
Roberts, Rachel Ryland a Heather Williams
Cynghorwyr Sir, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.
- YN BRESENNOL:** Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Kate Harcus – Dirprwy Glerc Rhuthin
Marian Rees - Cyfieithydd

CROESO

Croesawyd pawb a oedd yn bresennol gan y Maer i gyfarfod cyntaf y Cyngor Tref yn y flwyddyn ddinesig newydd a chroesawyd yn arbennig y Cynghorwyr Bradley-Hughes a Ryland, y ddau yn aelodau newydd o Gyngor Tref Rhuthun. Dywedodd y Maer ei bod yn braf gallu cynnal y cyfarfod mewn modd hybrid gyda'r rhan fwyaf o'r aelodau yn bresennol yn Yr Hen Lys.

17. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

18. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

19. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei bod, yn ystod ei hwythnos gyntaf yn y swydd, wedi agor yn ffurfiol Caffi Eden a gardd yn Neuadd y Farchnad Rhuthun ac hefyd wedi mynychu Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych oedd ar Zoom.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiad y Maer.

20. ADRODDIADAU'R AELODAU

Mynegodd y Cynghorydd Gavin Harris ei ddiolch i'r Cyngor Tref am ei enwebiad, trwy Un Llais Cymru, i fynychu'r Arddwest ym Mhalas Buckingham. Cydnabuwyd y byddai'r Cynghorydd Anne Roberts hefyd yn mynychu Garddwest yn ddiweddarach yn y mis ar ôl i'r digwyddiad gael ei ohirio yn 2020.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiadau'r Aelodau.

21. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Adroddodd y Cynghorwyr Sir bod sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl Gynghorwyr yn dilyn yr etholiad diweddar. Byddai Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir yn cael ei gynnal y diwrnod canlynol. Dywedwyd yn dilyn yr etholiad y byddai cyfansoddiad y Cyngor Sir a'r Cabinet yn wahanol i'r weinyddiaeth flaenorol, a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r tri Cynghorydd Sir yn cydweithio er budd Rhuthun.

Codwyd mater torri gwair a thorri gwrychoedd gan Gynghorydd Tref yn dilyn sylwadau trigolion ar gyfryngau cymdeithasol a diffyg ateb boddhaol. Dywedodd y Cynghorydd Sir Emrys Wynne ei fod wedi gofyn i swyddogion y Cyngor Sir ddarparu ymateb mwy cynhwysfawr am y gwaith torri gwair. Gofynnodd hefyd, i sicrhau bod cwynion yn cael eu cofrestru'n briodol, i drigolion roi gwybod am unrhyw faterion drwy'r broses gwyno swyddogol y Cyngor.

PENDERFYNWYD: *nodi adroddiad y Cynghorwyr Sir..*

22. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 o Ebrill 2022 fel cofnod cywir.*

23. MATERION YN CODI

Cofnod 247: Yr Urdd – roedd deunydd hyrwyddo wedi ei gynhyrchu a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn ystod wythnos yr Urdd a thu hwnt. Bu i'r Cynghorwyr Tref nodi bod tocynnau ar gyfer yr Urdd wedi eu dyrannu i'r Cyngor Tref ac y byddent ar gael gan Glerc y Dref i'r Aelodau hynny a hoffer mynychu fel cynrychiolwyr y Cyngor Tref. Soniodd y Cynghorwyr Sir Huw Hilditch-Roberts bod angen trafod y defnydd o unrhyw dir Cyngor Sir ar gyfer baneri/deunyddiau cyhoeddusrwydd ac ati, ymlaen llaw, gyda swyddogion priodol.

24. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 o Fai 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 3 o Fai 2022.*

25. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 o Fai 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 3 o Fai 2022.*

26. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod: gwaith wedi mynd rhagddo ar gynnwys y dehongliad hanesyddol; y blwch arddangos mawr wedi'i ddiweddarau gyda phaneli gwybodaeth, gyda map a phanel noddi i'w hychwanegu; ceisiadau'r ffotomarathon wedi'u harddangos; arddangosfa ar gyfer yr Urdd ac arddangosfa ddigidol ar gyfer y Jiwbilf Platinwm ar y gweill; a bod gwaith i osod y sgrin ddigidol ac uwchraddio'r cyflenwad trydan i'r cwpwrdd clyweled yn cael ei wneud yn dilyn yr Urdd a chyn Gŵyl Rhuthun.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys ar gyfer 5 Ebrill 2022.*

27. AELODAETH PWYLLGORAU 2022/23

Bu i'r Cynghorwyr Tref mynegi eu dymuniad i fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a/neu'r Pwyllgor Amwynderau, a chytunwyd ar y rhain. Penderfynwyd gohirio dyraniad aelodaeth newydd yr is-bwyllgorau nes bod y broses gyfethol wedi ei gwblhau a bod asesiad o'r strwythur a'r tasgiau penodol i'r is-bwyllgorau presennol wedi'i gynnal.

PENDERFYNWYD: *cytuno ar aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Amwynderau; gohirio aelodaeth newydd o'r is-bwyllgorau am y tro; ac i asesu'r strwythur a'r tasgiau penodol i'r is-bwyllgorau presennol.*

28. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2022-23

Ystyriodd yr Aelodau ei bod yn amserol, ar ddechrau'r tymor newydd ac yn dilyn y pandemig i gynnal adolygiad llawn o'r cyrff allanol cyn penodi cynrychiolwyr i'r Cyrff Allanol.

PENDERFYNWYD: cynnal adolygiad llawn o gyrff allanol cyn penodi cynrychiolwyr Cyngor Tref iddynt.

29. LLOFNODWYR CYFRIFON BANC - HSBC

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau ychwanegu y Dirprwy Faer y Cynghorydd Anne Roberts, at gyfrifon banc HSBC y Cyngor Tref fel llofnodwr awdurdodedig y Cyngor Tref. Byddai hyn yn cynnal y protocol mai'r llofnodwyr oedd y Maer presennol, y Dirprwy Faer presennol a'r Maer blaenorol ynghyd a Chlerc y Dref / Swyddog Ariannol Cyfrifol. O ganlyniad, byddai enw'r cyn Faer blaenorol, y Cynghorydd Gavin Harris yn cael ei dynnu oddi ar y cyfrifon banc.

PENDERFYNWYD: cadarnhau ychwanegu'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Anne Roberts a dileu'r Cynghorydd Gavin Harris fel llofnodwr awdurdodedig i gyfrifon banc HSBC.

30. RHYBUDD O GYNNIGION

Cyflwynwyd y rhybuddion o gynnig a ganlyn i'r Cyngor Tref i'w trafod:

Cynghorydd Ethan Jones

'Bod cyfarfodydd llawn y Cyngor Tref yn cael eu cofnodi a'u cadw, hyd at ddiwrnod cyfarfod llawn nesaf y Cyngor Tref. Bydd y recordiad yn cael ei gadw gan y Clerc a bydd ar gael ar gais unrhyw aelod o'r cyhoedd neu Gynghorydd'.

Cynigiwyd y cynnig gan y Cynghorydd Ethan Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes. Mewn trafodaeth, rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i egwyddor y cynnig a fyddai'n atgyfnerthu didwylledd a thryloywder cyhoeddus, er y codwyd cwestiynau technegol a chyfreithiol eu natur. Cynigiwyd gwelliant i'r cynnig gwreiddiol gan y Cyng Jabez Redfern Oakes, ac eiliwyd gan y Cyng. Oliver Bradley-Hughes gan nodi:

'Yn amodol ar gadarnhad bod yr holl ymholiadau cyfreithiol a thechnegol wedi'u datrys, bod cyfarfodydd llawn y Cyngor Tref yn cael eu cofnodi a'u cadw, hyd at ddiwrnod cyfarfod llawn nesaf y Cyngor Tref. Bydd y recordiad yn cael ei gadw gan y Clerc a bydd ar gael ar gais unrhyw aelod o'r cyhoedd neu Gynghorydd'.

Derbyniwyd y gwelliant uchod yn unfrydol.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r gwelliant i'r Rhybudd o Gynnig, fel yr amlinellwyd uchod.

31. DIWEDDARIAD AR GRONFA FFYNIANT BRO

Hysbyswyd y Cyngor Tref y byddai'r porth ymgeisio ar-lein cynhwysfawr ar agor rhwng 31 Mai a 6 Gorffennaf 2022.

PENDERFYNWYD: nodi y byddai'r porth ar-lein ar agor rhwng 31 Mai a 6 Gorffennaf..

32. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf. Roedd Hamdden Sir Ddinbych Cyf (DLL) wedi'i gadarnhau fel y corff arweiniol ac y byddai'r cam dylunio a datblygu yn cael ei gefnogi'n ariannol gan Chwaraeon Cymru (Sports Wales). Byddai tîm prosiect o Just Solutions yn gweithio gyda DLL ar ddylunio a datblygu'r gwaith. Er bod llawer o waith i'w wneud, roedd y cadarnhad o gefnogaeth ariannol gan Chwaraeon Cymru a'r gwaith partneriaeth yn gadarnhaol. Byddai adroddiad ysgrifenedig, yn amlinellu'r cynnydd a'r camau nesaf, yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: nodwyd y diweddariad ar gynydd felodrom Rhuthun arfaethedig.

33. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: cymeradwyo taliad yr eitemau canlynol:

OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau Cyfrifeg a Chyflogres – Mai 2022	*	£240.00
OB	Hill & Roberts	Cwblhau Ffurflen TAW ar gyfer y chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2022	*	£180.00
OB	IT Williams	Teithio i Gorwen a Gobowen parthed Planwyr	*	£195.00
OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd: Mawrth ac Ebrill	*	£270.00
OB	Marian Rees	Cyfieithu cofnodion: Mawrth ac Ebrill	*	£203.45
OB	Cyng Heather Williams	Ad-daliad: Rhodd Gwasanaeth Hir		£14.99
OB	Planhigion Glyndwr	Tasgau sy'n ymwneud a'r planwyr blodau		£171.00
OB	Sandra Williams	Cyfieithu ar y pryd: 25 Ebrill 2022	*	£36.00
OB	J & C Brimble	Glanhau a thrin: cofeb Tom Pryce		£65.00
OB	Fineline	Tystysgrifau ar gyfer Gwobrau Dinesydd Da etc	*	£14.39
OB	BT	Ffôn, band eang, rhyngrwyd - Mai 2022	*	£99.68
OB	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri gwair Ebrill 2022		£638.01
OB	Sian Clark	Ad-daliad: House of Tartan – Lace Jabot	*	£90.60
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Microsoft 365 Mai 2022	*	£18.96
OB	Kate Harcus	Ad-daliad: costau yn ymwneud â Chyfarfod Blynyddol	*	£70.03
OB	Sian Clark	Ad-daliad: costau clampiau Tamorque a sbaner clicied (Mallatite)		£315.76
		O gyfrif Yr Hen Lys		
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Treth Annomestig (3yff o 10 taliad) hyd at 5/6/22	*	£524.00
OB	J and C Brimble	Glanhau a thrin tu allan Yr Hen Lys a ffenestri		95.00
OB	Kate Harcus	Ad-daliad: manion Yr Hen Lys		£3.10

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy)

34. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau dyddiad y cyfarfodydd arferol nesaf y Cyngor Tref ar 20 o Fehefin 2022, am 7.00pm